# ACADEMI GYFLOGADWYEDD PRIFYSGOL ABERTAWE

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Academi Cyflogadwyedd Abertawe
Swansea Employability Academy

## Adroddiad Uchafbwyntiau 2020 - 2021

Gyrfa Rhithiol Swyddi Graddedigion cyflogwyr Twf Myfyrwyr Celf Ymgynghori cyflogadwyedd Cyngor Menter athrawon Dyfodol Effeithiol Recriwtio Lefel 2021 Ffair Brandio Ymgynghori Entrepreneuriaeth iBroadcast CV Llwyddo Meddylfryd Ymwybyddiaeth Swyddi rhan-amser asnachol cyflogadwyedd Graddedigion Dechrau da Digidol Gwirfoddoli Emosiynol Negodi Hyder Dechrau da Cymraeg Gyrfaoedd Swydd Gwaith Gwirfoddoli Personol Pwysigrwydd Undeb Arweiniad Goresgyn Recriwtiwr Cadernid Mynediad Sgiliau Cyfathrebu Recriwtio Abertawe Hyfforddiant Prifysgol Brwdfrydig Arbenigol Ymgynghori Ar-lein Y Byd asesu Uwchsgilio Cryfhau Bwrsarïau Interniaethau Offer Gwybodaeth Cydweithredol Ffeiriau Gyrfaoedd Rhwydwaith Cymuned Awgrymiadau Ardderchog Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar lwyddiannau Academi Gyflogadwyedd Prifysgol Abertawe (SEA) yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/2021. Yr hyn sy'n amlwg wrth ddarllen drwy'r tudalennau hyn yw bod yr Academi wedi ffynnu, hyd yn oed yn ystod cyfnod o ansicrwydd mawr ac wrth ddarparu ein gwasanaethau yn rhithiol. Ni fyddai wedi bod yn bosib cyflawni hyn heb waith caled a chydweithrediad creadigol ein cydweithwyr yn y Brifysgol, partneriaid allanol a chyn-fyfyrwyr, ledled Cymru a'r DU, ac yn rhyngwladol. Diolch i bob ohonoch, yn enwedig Emma Dunbar, Pennaeth Ymgysylltu, Arloesi ac Entrepreneuriaeth Prifysgol Abertawe, a fu hefyd yn gyfrifol am reoli SEA yn ystod blwyddyn academaidd 2020/2021, cyn trosglwyddo'r awenau i mi.

## RYDYM YN PARHAU I GYNNIG:

- Interniaethau wedi'u hariannu
- Bwrsarïau cyflogadwyedd i fyfyrwyr
- Bwrdd swyddi digidol
- Digwyddiadau/Gweithdai rhwydweithio a datblygu cyflogadwyedd, ffeiriau, tiwtora a hyfforddiant
- Y Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr (swyddi rhan-amser ar y campws)
- Y Rhaglen Cymorth i Raddedigion a ariennir gan Lywodraeth Cymru (drwy CCAUC)
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd gan staff cymwys
- Cwrs Datblygu Gyrfa i fyfyrwyr a graddedigion
- Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales a ariennir gan yr ESF (drwy CCAUC) ar gyfer myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael gwaith.

Rwy'n falch iawn o fod wedi cael fy mhenodi'n Bennaeth SEA ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn cyfnod fel Pennaeth interim. Yn gyntaf oll, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddathlu'r ymroddiad a chadernid anhygoel y mae myfyrwyr Abertawe wedi eu dangos yn ystod y pandemig. Gyda'n cefnogaeth ni, llwyddodd nifer fawr i barhau i gyflawni'n rhagorol, gan sicrhau interniaethau rhithiol, swyddi graddedigion a swyddi rhan-amser gan wynebu cystadleuaeth gref, yn ogystal â chymryd rhan mewn hyfforddiant a rhwydweithio rhithiol yn ystod cyfnodau clo.

Fe gafodd darpariaeth cyflogadwyedd Abertawe gydnabyddiaeth unwaith eto yn 2020/2021. **Daethom yn 10 fed yn y DU** myfyrwyr a oedd yn adolygu darpariaeth **am Ragolygon Swyddi** yn ôl barn cyflogadwyedd yn StudentCrowd. Gwnaethom hefyd lwyddo i **symud i fyny 195 lle yn rhestr safleoedd fyd-eang QS** am gyflogadwyedd, ar sail barn ein recriwtwyr graddedigion.

Yn 2021/2022, rydym wedi dechrau ymgynghori ar strategaeth newydd ar gyfer SEA ac rydym yn croesawu staff newydd i swyddi rheoli a marchnata yn SEA. Rydym yn parhau â'n partneriaethau hynod lwyddiannus, megis yr un gyda Santander, sydd wedi ein galluogi i lansio'r gronfa bwrsarïau newydd ar gyfer hyfforddiant myfyrwyr, 'CPD500', ochr yn ochr â Thîm Menter y Brifysgol, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â Thîm Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol i lansio dwy raglen mentora myfyrwyr, sy'n seiliedig ar gynllun peilot poblogaidd. Rydym newydd gynnal rownd recriwtio Llysgenhadon Myfyrwyr arall wrth inni geisio cyrraedd 500 o Lysgenhadon Myfyrwyr - roedd ein lefelau cyn Covid-19 yn cynnwys Uwch-lysgenhadon Myfyrwyr newydd ac unigolion a oedd yn dychwelyd i'r cynllun.

Caiff yr hyn oll ei gyflawni drwy gydweithio'n agos â'n myfyrwyr, ein graddedigion/cyn-fyfyrwyr, ein staff, diwydiant a chyrff cyflogadwyedd proffesiynol (megis AGCAS, ASET, ISE a PlaceNet) i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ar yr adeg hynod heriol hon.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ynghylch ein perfformiad yn ystod 20/21 neu ddarpariaeth yn ystod 21/22, cysylltwch â ni: **Employmentzone@swansea.ac.uk.**

Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi unwaith eto, ac i'r rhai ohonoch nad ydych yn ein hadnabod eto - **dyma ni**...



*Lucy Griffiths,*
**Pennaeth SEA**

# CWRDD Â'R TÎM



**Helyn Taylor**
Arbenigwr Cyflogadwyedd, Rhaglen Cymorth i Raddedigion



**Rob Yarr**
Cynorthwyydd Cyflwyno'r Rhaglen Cymorth i Raddedigion



**Simeon Smith**
Arbenigwr Cyflogadwyedd



**Linda Palmer**
Cydlynydd Digwyddiadau Cyflogwyr



**Fiona Courtney**
Gweinyddwr Lleoliadau Gwaith a Chyflogaeth




**Laura Hughes**
Uwch-swyddog Cyflawni GO Wales



**Clare Howes**
Swyddog Cyflawni GO Wales



**Michele Austin**
Swyddog Cyflawni GO Wales



**Alison Sandy**
Swyddog Cyllid GO Wales



**Lowri Walton**
Cydlynydd Marchnata SEA



**Zdravka Kamenova**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd



**Paula Williams**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd



**Lucy Norman-Lewis**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd



**Jennie James**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd



**Gareth Hill**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd




**Katie Harris**
Gweinyddwr Gwasanaethau Ymgynghori ar Yrfaoedd



**Stephanie Leech**
Rheolwr y Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr



**Ashley Holloway**
Cynorthwyydd Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr



**Milly Light**
Cynorthwyydd Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr



**Bev Jenkins**
Uwch-weinyddwr

# CYFLAWNI'R STRATEGAETH

## *Cyflogaeth a Phrofiad Gwaith*

**669** **O GYFLEOEDD AMRYWIOL IAWN**

wedi'u hysbysebu i fyfyrwyr a graddedigion Abertawe gan **591 o sefydliadau**. Mae hyn yn cynnwys swyddi rhan-amser, swyddi graddedigion, interniaethau a lleoliadau gwaith.

**43,498** **O SWYDDI YCHWANEGOL**

ar gael yn yr un system drwy ddolenni at fyrddau swyddi allanol.

**6,939** **O FYFYRWYR A GRADDEDIGION ABERTAWE**

wedi cofrestru i ddefnyddio bwrdd swyddi ein Parth Cyflogaeth. (**3,494 cofrestriad newydd** yn 20/21 yn unig)

**137** **INTERNIAETH Â THÂL I FYFYRIWR 'SPIN'**

wedi'u darparu drwy ystod eang o ddarparwyr interniaethau – ariannwyd y cyflogau gan SEA ar gyfradd dâl y Living Wage Foundation, hyd at **210 awr.**

**38** **INTERNIAETH I FYFYRIWR WOW (WYTHNOS O WAITH)**

wedi'u darparu drwy ystod eang o ddarparwyr interniaethau – gwaith gwirfoddol, hyd at **70 awr**, yn aml gyda chymorth bwrsarïau cyflogadwyedd SEA ar gyfer treuliau.

**64** **CYFLE PROFIAD GWAITH GO WALES**

wedi'u darparu i fyfyrwyr a wnaeth gais am gymorth ychwanegol, e.e. ymadawyr gofal, gofalwyr a myfyrwyr anabl, am 1 diwrnod i 4 wythnos. Yn ogystal â hyn, roedd **31 o fyfyrwyr** yn gadael y rhaglen gyda Risg Is o fod yn y categori NEET (ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) a derbyniwyd **62 o fyfyrwyr newydd** i'r rhaglen.

**22** **INTERNIAETH Â THÂL DRWY'R RHAGLEN CYMORTH I RADDEDIGION**

wedi'i darparu - ariannwyd y cyflogau ar gyfradd dâl y Living Wage Foundation, hyd at **3 mis**, ac arweiniodd hyn yn anuniongyrchol/uniongyrchol at gyflogaeth lefel graddedig i **49 o raddedigion Abertawe**.

**18,531** **AWR**

o waith rhan-amser ar y campws wedi'i gwblhau gan 364 o Lysgenhadon Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, a gefnogodd 174 adran yn y brifysgol a thros 433 o geisiadau gan adrannau, e.e. diwrnodau agored ac ymgyrchoedd galw, gan wneud Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr Abertawe yn un o'r cynlluniau mwyaf o'i fath yn y DU!

# CYFLAWNI'R STRATEGAETH

## Ehangu Rhwydweithiau

**Mynychodd 1,272** o fyfyrwyr a graddedigion **93** o ddigwyddiadau SEA, gan gynnwys Ffeiriau Gyrfaoedd, digwyddiadau/gweithdai ymgysylltu â chyflogwyr, sesiynau datblygu sgiliau a sesiynau tiwtora/mentora cyflogadwyedd. Dyma rai ohonynt:

- Ffair Yrfaoedd Canmlwyddiant y Brifysgol a gynhaliwyd gan SEA, gydag 11 o gyflogwyr yn bresennol, gan gynnwys Fortil, Trafnidiaeth Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Nuclear Graduates.
- Ffair Yrfaoedd Rithiol yr Hydref SEA, gyda 12 o gyflogwyr yn bresennol, gan gynnwys Network Rail, Confused.com, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Lidl.
- Ffair Yrfaoedd SEA i Raddedigion, gyda 22 o gyflogwyr, gan gynnwys Aldi, ICAEW, Admiral, TeachFirst a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Negodi Llwyddiannus, The Negotiation Club
- Ymgynghori – Gwneud i newid ddigwydd, BASIS Consulting
- Canllaw i Ymwybyddiaeth Fasnachol - Arfogi eich Hun i Lwyddo, The Business Update
- Cadernid Emosiynol, Training4Wales
- Sicrhau dechrau da a threfn wrth chwilio am waith, #ENTRYLEVELBOSS
- Paratoi ar gyfer Ffair Yrfaoedd Rithiol #ENTRYLEVELBOSS
- Bod yn Rheolwr arnoch Chi'ch Hun – Trafodaeth Banel Diwrnod Rhyngwladol Merched, Prifysgol Abertawe.
- LHDTC+ - "Bod allan yn y gweithle", Rhwydwaith Staff LHDTC+ Prifysgol Abertawe.
- Dechrau Da i'ch Gyrfa yn y Byd Newydd, Tor Abrams
- Hyfforddiant LinkedIn i Raddedigion, SEA
- iBroadcast, Ysbrydoli i Gyflawni a Sean Holley
- Sgiliau Cyflwyno ar gyfer Graddedigion, y Ganolfan Llwyddiant Academaidd
- Uwchsgilio Digidol a Chydweithio Ar-lein, Ysbrydoli i Gyflawni
- Cyfres Gradfutures, GradConsult
    - Meddwl fel Recriwtiwr
    - Dyma Fi: Canllaw i Frandio Personol
    - Y Grefft o Gyfathrebu'n Wych
    - Bod yn Effeithiol mewn Bywyd a Gwaith
    - Pwysigrwydd Ymwybyddiaeth Fasnachol
    - Datblygu Meddylfryd Twf
- The Confidence Series, Aimee Bateman
    - The Confidence Series, Aimee Bateman Goresgyn Syndrom Ffugiwr
    - Cynnal Cymhelliant a Datblygu Cadernid wrth Chwilio am Waith
    - Canfod eich Criw: Adeiladu 3 Colofn eich Rhwydwaith



## DYFYNIAD GAN FYFYRIWR: RHAGLEN GO WALES

"Dwi'n teimlo bod y cynllun wedi gwella fy hyder a'm sgiliau cyflogadwyedd drwy brofiadau ymarferol y galla i eu defnyddio mewn amgylchedd gwaith ffurfiol."

# CYFLAWNI'R STRATEGAETH

## Cyngor a Chymorth Ariannol

**629**

o Fwrsarïau Cyflogadwyedd (£100 - £300) wedi'u darparu i fyfyrwyr/ graddedigion ar gyfer treuliau, megis trafnidiaeth i gyfweliad, offer ar gyfer gweithio gartref a chyfweliadau o'r cartref, archwiliadau DBS, dillad busnes a hyfforddiant cyflogadwyedd.

**2,429**

o ymholiadau wedi'u hateb ac adnoddau wedi'u darparu drwy fewnflychau SEA pwrpasol ar gyfer cefnogi myfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr graddedigion.

## Cefnogaeth, Datblygiad ac Addysg Cyflogadwyedd

**3,516**

o fyfyrwyr wedi cwblhau 5-10 uned o'r Cwrs Datblygu Gyrfa (CDC) newydd ac roedd 39 modiwl wedi'i ymgorffori yn y CDC - felly, cwblhawyd 21,543 o unedau unigol CDC! Mae'r unedau'n cynnwys datblygu hunanymwybyddiaeth, meddylfryd, ymwybyddiaeth fasnachol a chreu cynllun gweithredu ar gyfer gyrfa.

**1,912**

o fyfyrwyr a graddedigion wedi cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd gan staff SEA cymwys drwy apwyntiadau (Zoom, e-bost a ffôn) a sesiynau galw heibio rhithiol.

Bu staff SEA yn addysgu ar 61 modiwl (143 awr), gan gyrraedd dros 6,500 o fyfyrwyr. Gwnaethant hefyd hyfforddi 119 aelod staff i gyflwyno hyfforddiant cyflogadwyedd eu hunain.


**180**

o raddedigion wedi cael mynediad at y cwrs newydd Datblygu Gyrfa i Raddedigion.

O ganlyniad, fe gafodd SEA tua **60,000** o ryngweithiadau gyda'n marchnadoedd targed yn y flwyddyn academaidd 20/21.

# ASTUDIAETHAU ACHOS SEA

## Y TÎM YMGYNGHORWYR GYRFAOEDD



### Eliott Studholme


Mae Eliott Studholme yn fyfyriwr Cemeg 3edd flwyddyn ym Mhrifysgol Abertawe; roedd yn ymgeisio am un o'r chwe lleoliad Wellcome Biomedical Vacation Scholarship (BVS) a oedd ar gael ym Mhrifysgol Rhydychen yn ystod haf 2021. Cysylltodd Eliott â'r Tîm Ymgynghorwyr Gyrfaoedd i gael cyngor ar ei ffurflen gais, CV a datganiad personol ar gyfer yr ysgoloriaeth.

Erbyn y cyfarfod cyntaf, roedd wedi paratoi fersiwn ddrafft o'i ffurflen gais ac, o'r pwynt hwnnw ymlaen, rhoddodd Eliott ystyriaeth i'r holl gyngor a roddwyd, gan gadarnhau'r newidiadau yr oedd yn eu gwneud ar hyd y ffordd a mireinio ei ddogfennau nes fod ganddo fersiwn derfynol yr oedd yn fodlon arni. Roedd Eliott wedi cwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa fel rhan o fodiwl academaidd yn ei gwrs gradd hefyd. Felly, roedd hynny wedi rhoi dealltwriaeth berthnasol o yrfaoedd iddo.

Mae'n un o blith y genhedlaeth gyntaf yn ei deulu i fynd i brifysgol, a gyda chefnogaeth y tîm gyrfaoedd a chais trwyadl, llwyddodd i sicrhau lle ar brosiect ymchwil fel rhan o'r rhaglen Wellcome BVS ym Mhrifysgol Rhydychen - gan ei roi mewn sefyllfa dda i gael gyrfa lwyddiannus yn y dyfodol.

*Dwi newydd gael gwybod fy mod i wedi llwyddo i gael y lleoliad yn Rhydychen yn yr haf! Mae hyn yn andros o sioc a dwi wedi cynhyrfu'n lân ar y funud, ond, wrth gwrs, fel pan wnaethon ni'r datganiad, dwi'n ddiolchgar iawn am yr holl help a gefais gyda fy natganiad personol a fy CV! Roedd y cyngor a gefais gan Zdravka yn help mawr - dwi nawr am gymryd ychydig o amser i ffwrdd ar ôl i'r arholiadau orffen ac yna mynd am Rydychen imi gael syniad o'r hyn fydd angen imi ei wybod ar gyfer y prosiect.*

## GO WALES



# Joseph Newton

Cofrestrodd Joseph ar y cynllun GO Wales yn 2021 tra'r oedd yn astudio ar gyfer ei MSc mewn Dynameg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd. Ymunodd Joe â'r rhaglen gan ei fod yn pryderu ynglŷn â'i allu i gystadlu ag ymgeiswyr eraill wrth ymgeisio am swyddi yn y dulliau confensiynol.

Oherwydd bod ganddo dyslecsia, roedd ffurflenni cais ac asesiadau eraill yn rhwystr anferth iddo. Roedd anawsterau dysgu eraill hefyd yn creu rhwystrau, ac roedd hynny'n achosi mwy o bryder iddo ynghylch ei ragolygon ar ôl graddio; roedd Joe'n awyddus i wella ei hyder er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflwyno ei hun i gyflogwyr yn y dyfodol.

Roedd gan Joe ddiddordeb mewn swyddi gwyddor amgylcheddol a chadwraeth a oedd yn cynnwys casglu a dadansoddi data. Fodd bynnag, nid oedd gan Joe gysylltiadau a allai ei helpu i gael profiad gwaith, ac ychydig o wybodaeth oedd ganddo o ran ble'r oedd y swyddi hyn i'w cael, a sut y byddai'n ymdopi â'r gwaith.

Yn ystod 2021, trefnodd GO Wales i Joe gael profiad o waith rheoli, ymchwilio a monitro yn ymwneud â chynefinoedd twyni tywod gydag Adran Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe. Roedd y gwaith hwn yn cyd-fynd â meysydd diddordeb Joe a byddai'n ei helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r sector gwyddor amgylcheddol a chadwraeth a'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y sector hwnnw. Bu profiad Joe yn help i wella ei sgiliau arolygu a gwaith maes, yn ogystal â gwella ei allu i weithio'n annibynnol mewn sefyllfa broffesiynol.

GO WALES — Cyflawni drwy Brofiad Gwaith — Achieve through Work Experience

UNDEB EWROPEAIDD / EUROPEAN UNION — Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

*Drwy fy mhrofiad, dysgais am lwybrau cyflogaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith yn y diwydiant. Fe wnes i fwynhau ochr gorfforol y gwaith yn arbennig; yr angen i fod yn ymarferol, ochr yn ochr â'r gwaith meddwl. Llwyddais i gyflawni fy amcanion yn llawn, a datblygu fy sgiliau arolygu. Mae hwn wedi bod yn gyfle a phrofiad gwerthfawr, yn enwedig yn ystod y pandemig coronafeirws.*

## Y RHAGLEN CYMORTH I RADDEDIGION



# Alex Markovits

Alex Markovits ydi fy enw i, ac fe lwyddais i ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Rheoli Busnes o Brifysgol Abertawe yn ddiweddar. Dwi'n mynd i fod yn aros yn Abertawe i astudio gradd meistr mewn Marchnata Strategol ym mis Medi. Un o Maidenhead yn Berkshire, de-ddwyrain Lloegr ydw i. Dwi wedi wynebu rhwystrau wrth geisio cael addysg a gwaith oherwydd bod gen i syndrom Asperger. Dwi wedi profi cyfuniad o ragfarn a phroblemau hyder, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gwaith.

Mae gen i brofiad blaenorol ym maes Marchnata drwy leoliad profiad gwaith ym Mhrifysgol Abertawe. Roeddwn i'n chwilio am interniaeth ar gyfer haf 2021 i gael profiad ym maes Marchnata, ac roeddwn i'n cael trafferth dod o hyd i un cyn imi ymuno â'r Rhaglen Cymorth i Raddedigion (GSP). Doedd gen i fawr o hyder o gwbl fy mod i'n mynd i allu dod o hyd i interniaeth nes imi ymuno â'r GSP. Roedd hynny oherwydd cyfuniad o'r pandemig a phrofiadau negyddol mewn sefyllfaoedd blaenorol.

Prinder swyddi ydi'r rhwystr mwyaf. Mae gan y staff sy'n rhedeg y Rhaglen Cymorth i Raddedigion gysylltiadau mewn nifer o sefydliadau, ac fe wnaethon nhw fy rhoi i mewn cysylltiad â'r rhain, gan roi cyfarwyddiadau clir imi o ran yr hyn yr oedd angen imi ei wneud i ymgeisio am interniaeth. Roedd y staff sy'n gweithio i'r GSP yn garedig, yn barod iawn i helpu, yn hawdd siarad â nhw ac yn ymateb heb oedi, felly roedd gwneud cais am interniaeth dros yr haf yn broses ddidrafferth. Mae'r GSP yn agor y drws i fyd gwaith i raddedigion, drwy roi cyfle iddyn nhw gael profiad â thâl a fydd yn gwella eu rhagolygon wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol. Drwy'r GSP, fe gefais interniaeth farchnata yn Anabledd Cymru.

*Fe wnes i wynebu rhwystrau ar ôl cwblhau fy ngradd oherwydd y pandemig. Doeddwn i ddim yn gallu symud er mwyn cael gwaith, gan fod gen i deulu i ofalu amdano, ac roedd yn dipyn o her dod o hyd i rywle roeddwn i wir eisiau gweithio ynddo. (Wrth drafod cyfleoedd GSP) Mae'r rhain i gyd wedi rhoi hwb i fy hyder, wedi fy ngwneud i'n ymwybodol o ochr fasnachol y sector ac wedi fy ngwneud i'n fwy cyflogadwy. Fe wnaethon ni lwyddo i chwalu'r rhwystrau a dwi bellach yn cael fy nghyflogi gan Anabledd Cymru. Allwn i ddim gofyn am fwy na hynny!*

# Y CYNLLUN LLYSGENHADON MYFYRWYR



## Chido Ranganayi

Drwy fod yn rhan o'r Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr (SAS), fe ddysgais lawer o sgiliau a ddefnyddiais tra'r oeddwn i'n gwneud fy ngradd, a dwi'n dal i'w defnyddio nhw nawr yn fy ngwaith.

Drwy arwain teithiau o gwmpas y campws yn ystod diwrnodau agored, fe ddysgais sut i ryngweithio â gwahanol bobl drwy ddefnyddio sgiliau cyfathrebu da. Y sgiliau cyfathrebu hyn oedd yn gyfrifol am sicrhau'r cyfle a gefais o fewn y Cynllun i fod yn Llysgennad Digidol a helpu i osod y sylfaen ar gyfer y ffordd y gallai'r brifysgol gynyddu ei dylanwad digidol. O ganlyniad i hyn, fe gefais gyfle i roi cyflwyniad ochr yn ochr â'r Is-ganghellor, Cofrestrydd y brifysgol a Rheolwr y Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr (SAS). Roedd y sgiliau cyflwyno hyn o gymorth i mi pan oedwn i'n gwneud cyflwyniadau grŵp ac unigol fel rhan o asesiadau fy modiwlau, ac yn y ganolfan asesu ar gyfer y swydd dwi'n ei gwneud ar hyn o bryd.

Yn ogystal â hyn, oherwydd y sgiliau a'r rhwydwaith a ddatblygais ar hyd y ffordd, roeddwn i'n adnabod y bobl iawn i siarad â nhw adeg sefydlu Pwyllgor Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant (DIAC) y cynllun.

*Roeddwn i wedi fy synnu pan gymerodd aelodau o uwch dîm rheoli y brifysgol fy syniad o ddifrif, ond pan wnaethon nhw hynny fe sylweddolais fod y SAS yn barod i wrando ar fy syniadau yn ogystal â bod yno i fy nghefnogi gyda'r profiad gwaith. Roedd yn brofiad calonogol i mi ac fe roddodd imi'r hyder i wybod bod fy syniadau'n gallu cael effaith. Mae hynny'n amhrisiadwy i mi.*




## DYFYNIAD GAN FYFYRIWR: #ENTRYLEVELBOSS

"Mae wedi bod yn brofiad rhyfeddol na fydda i byth yn ei anghofio, a dwi mor ddiolchgar am bopeth dwi wedi'i ddysgu."

# PARTNERIAETHAU LLWYDDIANNUS

## SANTANDER UNIVERSITIES

Cafwyd llwyddiant drwy nifer o fentrau yn sgil ein perthynas barhaus â Santander Universities drwy gydol blwyddyn academaidd 2020-21.

Y flwyddyn academaidd hon oedd blwyddyn gyntaf contract 3 blynedd o gyllid cytunedig. Ar gyfer SEA, bydd hyn yn 20k y flwyddyn ar gyfer ein hyfforddiant cyflogadwyedd allgyrsiol, sef y rhaglen #ENTRYLEVELBOSS eleni (gweler y manylion isod).

Gwnaethom hefyd barhau i dderbyn cyllid (£10k) ar gyfer ein rhaglennu interniaethau drwy Santander Universities, yn ogystal â chymryd rhan yn eu cwrs hunanddatblygu ar-lein, eu rhaglen Cynhwysiant Pobl Dduon a'u cynllun grantiau gweithwyr llawrydd drwy REIS. Cawsom nifer ragorol o geisiadau ym mhob categori a bu Prifysgol Abertawe yn llwyddiannus yn y cwrs hunanddatblygu ar-lein - gyda myfyriwr yn ennill £10k am eu datblygiad proffesiynol, ac yn y cynllun grantiau gweithwyr llawrydd - gyda myfyriwr yn ennill £1k tuag at eu gwaith llawrydd.

O ganlyniad i'r berthynas ardderchog hon gyda Santander, cynigwyd £20k yn ychwanegol i Brifysgol Abertawe i'w ddosbarthu fel yr oeddem yn ei weld yn briodol ymysg myfyrwyr am eu hunanddatblygiad. Felly, ar y cyd â'r Tîm Menter, gwnaethom ddatblygu'r gronfa CPD500, gan gynnig hyd at £500 i fyfyrwyr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a chyrsiau proffesiynol y maent yn dymuno eu dilyn ochr yn ochr â'u hastudiaethau prifysgol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei wario yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.

## #ENTRYLEVELBOSS

O ganlyniad i gyllid gan Santander Universities, bu'n bosib i Academi Gyflogadwyedd Prifysgol Abertawe gynnig Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd mewn partneriaeth ag #ENTRYLEVELBOSS.

Cafwyd nifer fawr o ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen, a dewisodd #ENTRYLEVELBOSS 12 ohonynt ar y sail mai'r rhain y byddai'r rhaglen o'r cymorth mwyaf iddynt yn eu barn nhw. Ers iddynt gwblhau'r rhaglen, mae dau o'r myfyrwyr hyn eisoes wedi dod o hyd i interniaethau drostynt eu hunain ac wedi bod yn ôl mewn cysylltiad ag Academi Gyflogadwyedd Prifysgol Abertawe i gael mynediad at gyllid ar gyfer darparwyr eu hinterniaethau.

**Rydym hefyd wedi cael yr adborth rhagorol hwn gan y cyfranogwyr:**

*"Fe newidiodd fy meddwl yn llwyr pan oeddwn i'n meddwl am fy ngyrfa yn y dyfodol. Dwi'n mor ffodus o gael dwy ddynes broffesiynol sy'n rhannu llawer o wybodaeth am eu profiad o ddiwydiant gyda mi. Mae Sally yn garedig iawn yn rhoi llawer o gyngor gwych imi ynghylch fy ngyrfa yn y dyfodol neu ynghylch fy mywyd. Fe gefais help gan Alexa gyda fy CV ac mae hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol.*
**– Olivia, BSc Cyllid**

*"Mae wedi bod yn brofiad rhyfeddol na fydda i byth yn ei anghofio, a dwi mor ddiolchgar am bopeth dwi wedi'i ddysgu. Roedd Sally ac Alexa'n ardderchog. Roedden nhw'n cynnal awyrgylch cadarnhaol, croesawgar a chefnogol. Roedd eu cyngor yn help mawr i mi ddarganfod beth yr hoffwn i ei wneud, ond yn bwysicaf oll fe wnaethon nhw fy annog i fynd ati i wneud pethau heb oedi."* **– Victoria, BA Y Cyfryngau a Chyfathrebu**

Mae cyllid gan Santander Universities wedi cael ei gadarnhau am y ddwy flynedd academaidd nesaf, a gobeithiwn weithio gydag ELB eto i ailadrodd y llwyddiant hwn.

## BRIGHT NETWORK

O ganlyniad i'r parhad yn y berthynas â Bright Network a rhaglen hyrwyddol a oedd yn cynnwys gwaith SEA a nifer fawr o adrannau yn y cyfadrannau, cynigiwyd llawer mwy o interniaethau rhithiol y flwyddyn hon.

Ceir rhestr o gofrestriadau Prifysgol Abertawe isod:

| **Cyfanswm y Cofrestriadau Bright Network** | **418** |
|---|---|
| Gwasanaethau Proffesiynol ac Ymgynghori | 34 |
| Technoleg | 25 |
| Bancio Buddsoddi a Rheoli Asedau | 53 |
| Sector Cyhoeddus, Polisi ac Elusennau | 20 |
| Busnes, Gweithrediadau a Marchnata | 57 |
| Archwilio, Treth a Chyllid Corfforaethol | 58 |
| Peirianneg a Seilwaith | 67 |
| Cyfraith Fasnachol | 38 |
| Ar Alw* | 66 |

* Mae 'Ar Alw' yn dangos nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru i gael mynediad at yr adnoddau, ond heb ddewis llwybr penodol.

## Aspire2Be

Fel rhan o brosiect iBroadcast, mae myfyrwyr yn cwblhau wythnos o hyfforddiant dwys, ymarferol ym maes y cyfryngau, wedi'i gyflwyno gan Aspire2Be ochr yn ochr ag un o sêr byd y cyfryngau chwaraeon a chyn Brif Hyfforddwyr y Gweilch, Sean Holley. Yn dilyn hynny, maent yn cael eu mentora a'u cefnogi i gwblhau prosiectau seiliedig ar waith yn unigol ac fel rhan o grŵp.

Yn ystod y pandemig, aeth y prosiect drwy gyfnod o drawsnewid digidol. Roedd myfyrwyr yn cael eu hyfforddi gan ddefnyddio adnoddau cydweithio ar-lein a chawsant fudd o brofiadau Sean o weithio ar y cyfryngau yn ystod pandemig, a oedd yn rhoi dealltwriaeth hynod werthfawr iddynt o newidiadau yn y diwydiant, fel yr oeddynt yn digwydd. Roedd siaradwyr gwadd yn cyfrannu bob dydd, ac roedd y cyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo drwy hyfforddiant sgiliau cyfweld ac yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau craff. Yn ogystal â'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd a gwella eu hyder, roedd hyn hefyd yn galluogi cyfranogwyr i ddysgu mwy eto o'r profiad a dysgu gan y goreuon yn y busnes.

Ar ôl cwblhau'r prosiect iBroadcast, roedd gan y myfyrwyr sgiliau a phrofiad gwerth chweil ac, yn hollbwysig, roedd ganddynt brosiect i'w ychwanegu at eu portffolio i'w helpu i gyflwyno tystiolaeth o'u sgiliau, a oedd yn berthnasol i ffyrdd o weithio 'busnes yn ôl yr arfer' a'r 'normal newydd'.

Dywedodd Nick Evans o Aspire2Be, "Mae gweithio gyda'r Brifysgol wedi ehangu ein persbectif ar dalent y dyfodol a chyfleoedd yn y sector digidol i fyfyrwyr. Mae'r rhaglen iBroadcast ei hun wedi rhoi mynediad i ni at rai o ddoniau gorau'r Brifysgol a allai fod yn sêr y dyfodol, ac rydyn ni wedi cael budd anferth o'r plethora o fyfyrwyr sydd wedi cymryd rhan ac wedi cyfrannu, drwy hynny, at gylch datblygu rhaglen iBroadcast.

Mae talent rhai o'r myfyrwyr ar y rhaglen iBroadcast mor dda nes ein bod ni'n aml yn dod o hyd i gyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau i ddatblygu ein darpariaeth, ac mae hynny'n caniatáu i ni fel busnes werthuso ein prosesau a'n rhaglenni ein hunain."

## JOBTEASER

Oherwydd ein partneriaeth barhaus â JobTeaser (sydd wedi'i frandio fel y Parth Cyflogaeth ym Mhrifysgol Abertawe) fel ein prif blatfform cyflogadwyedd digidol, roedd yn bosib inni symud yn gyflym i ddilyn model digidol ar gyfer Ffair Yrfaoedd ein Canmlwyddiant, Ffair Yrfaoedd yr Hydref, ein Ffair Yrfaoedd Graddedigion gyntaf ym mis Mehefin, a digwyddiadau cyflogwyr eraill.

Roeddem hefyd yn gallu parhau i ddarparu ein bwrdd swyddi digidol i fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr drwy gydol y cyfnodau clo anodd, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd gweithio o bell yn cael eu hyrwyddo yn ystod y cyfnod hwn.

Oherwydd y ffocws hwn ar weithio'n ddigidol yn bennaf, bu'n bosib inni recordio sgyrsiau gan gyflogwyr a'u llwytho i fyny ochr yn ochr ag adnoddau eraill ar y platfform JobTeaser. Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r platfform i ddosbarthu ein newyddlen wythnosol a oedd yn tynnu sylw at gyfleoedd a digwyddiadau perthnasol ochr yn ochr â chynnwys a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y platfform a oedd yn berthnasol i ddewisiadau a phroffil myfyrwyr unigol. Mae JobTeaser wedi parhau i arloesi ym maes meddalwedd cyflogadwyedd, gan ehangu eu darpariaeth i gynnwys datblygiadau newydd, megis holiadur cymhelliant.

Bydd rhagor o ddatblygiadau, megis adolygiadau o gyfleoedd gwaith wedi'u paratoi gan ddefnyddwyr, yn cael eu cyflwyno yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.

## TÎM MENTER PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae datblygu talent entrepreneuraidd yn un o nodweddion unigryw profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Drwy gydweithio â'r Tîm Menter, mae SEA yn gallu darparu sgiliau i fyfyrwyr a fydd o fantais iddynt ar eu taith yrfaol, neu gyda'u nod o ddechrau eu busnes eu hunain. Yn 2021, sefydlwyd 47 o fusnesau myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Dyma rai o'r uchafbwyntiau eraill:

- Cystadleuaeth flynyddol y Big Pitch a ariennir gan Santander, pan fydd myfyrwyr yn cyflwyno syniad i gystadlu am gyllid o bot o £24,000 i ariannu eu busnesau newydd.
- Ceir modiwlau entrepreneuriaeth o fewn Cwrs Datblygu Gyrfa SEA.
- Ar hyn o bryd, mae gennym 75 o Hyrwyddwyr Menter sy'n aelodau o'r staff.
- Cyrhaeddodd Prifysgol Abertawe y rhestr fer yng nghategori 'Prifysgol Entrepreneuraidd Eithriadol y Flwyddyn' yng Ngwobrau Times Higher Education 2021
- Drwy ein cyn-fyfyrwyr anhygoel, megis Dr Ben Reynolds o Urban Foundry, mae ein myfyrwyr a'n graddedigion yn gwerthu mewn marchnadoedd lleol, sy'n rhoi cyfle iddynt ddod yn rhan o'r gymuned leol.
- Mae mentrau cenedlaethol a byd-eang ar gael i fyfyrwyr hefyd, megis yr hynod lwyddiannus Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf, Hack of Change - y cymerodd 75 o'n myfyrwyr ran ynddo, a ni oedd yr unig brifysgol o'r DU a gafodd wahoddiad i Hacathon 'Invent for the Planet' Texas A&M University.




## YN FALCH O FOD YN CYDWEITHIO Â:

A LLAWER MWY!

# CYSYLLTWCH Â NI

Academi Gyflogadwyedd Prifysgol Abertawe (SEA)
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

Prifysgol **Abertawe**
**Swansea** University

Academi Cyflogadwyedd Abertawe
Swansea Employability Academy

employmentzone@swansea.ac.uk

**swansea.ac.uk/sea**